**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun ar Ddydd Mercher, 25ain Gorffennaf 2001 am 10.00a.m.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr F.D. Jones (Cadeirydd), P. Douglas, S. Drew (Dirprwy ar ran I. German), A.E. Fletcher-Williams, M.A. German, K.N. Hawkins, D.M. Holder, N.J. Hughes, R.W. Hughes, G. Jones, M.M. Jones (Dirprwy ar ran M.Ll. Davies), P.M. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, A.E. Roberts (Dirprwy ar ran S. Thomas), F. Shaw, J.A. Smith, D.A. Thomas (Dirprwy ar ran R.Ll. Williams), W.G. Thomas, A.J. Tobin, K.E. Wells, C.H. Williams a P.O. Williams.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Clerc y Sir, Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Pen Swyddog Cynllunio (Gogledd), Pen Swyddog Cynllunio (De), Pen Swyddog Cynllunio a Gorfodi, Uwch-Swyddog Cynllunio (Polisi), Swyddog Gweinyddol (G. Butler) a Chynorthwy-ydd Gweinyddol (S. Parry).

**DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH**

Y Cynghorwyr J. Butterfield, G. Clague, D.W. Davies, M.Ll. Davies, I.M. German, J.R. Hughes, N. Hugh-Jones, E.A. Owens, K.P. Stevens, S. Thomas ac R.Ll. Williams.

**CROESO**

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Samantha Parry, a oedd yn mynychu’r Pwyllgor Cynllunio fel rhan o Gynllun Mentora’r Gwasanaethau Cynllunio i recriwtiaid newydd.

**391. EITEMAU BRYS**

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cyhoeddodd y Cadeirydd ei fod yn bwriadu cynnwys yr eitem ganlynol, a oedd ag angen sylw brys, i’w thrafod:-

Cais Galw i Mewn - Fferm Wynt Arfaethedig yn Nhir Mostyn/Foel Goch, Nantglyn.

**392. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru’r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD***:-

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion fel y’u cynhwysir yn yr Adroddiad a gyflwynir yn awr a rhoi caniatâd cynllunio neu’i wrthod yn ôl fel y digwydd, fel y bo’n briodol dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 i’r datblygiad a arfaethir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 02/2001/0499/PF | (Ar ôl ystyried adroddiad atodol yn manylu ar sylwadau hwyr a dderbyniwyd ac ymateb y swyddogion i’r pwyntiau a godwyd ac ar ôl ystyried llythyrau ychwanegol yn cyflwyno sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Tref Rhuthun, Pen Swyddog Cefn Gwlad (Coed), Mr P. Miller, 31 Park Road West, Curzon Park, Caer (ar ran preswylwyr Hafryn, Greenfield Road, Rhuthun), Mr J.G. Humphreys, |

Tan Dderwen, Greenfield Road, Rhuthun, M. Davidson, Fisher Wilson, Ymgynghorydd Eiddo, 1-3 Hanover Street, Llundain (hefyd ar ran preswylwyr Hafryn, Greenfield Road, Rhuthun).
Codi annedd a newidiadau i'r fynedfa i gerbydau ar dir yn gyfagos i Hafryn, Greenfield Road, Rhuthun.
Hysbysodd Clerc y Sir yr Aelodau o ddarpariaethau'r cynllun dirprwyo cymeradwyedig. Er bod y tir yn eiddo i aelod o'r Cyngor, mae'r cynllun dirprwyo dim ond yn mynnu bod y ceisiadau hynny a gyflwynwyd gan neu ar ran Cynghorydd yn cael eu penderfynu gan y Cyngor llawn.
Hysbysodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio yr Aelodau:-
(1) bod yr holl gynlluniau manwl ar gofrestr y cynlluniau i'r Aelodau eu harchwilio cyn Pwyllgor Cynllunio;
(2) yn drefniadol, y bu digonedd o amser ar gyfer sylwadau;
(3) bod yr Aelodau wedi ymweld â'r safle;
(4) yr ymgynghorwyd â Chyngor y Dref ddwywaith, a
(5) bod crynodeb llawn o sylwadau hwyr wedi'i baratoi er budd yr Aelodau. Cynghorodd ymhellach ar faterion polisi - y dylai'r cais hwn gael ei benderfynu'n unol â Chynllun Lleol Dosbarth Glyndwr - roedd polisïau ym mholisi CDU datblygol Sir Ddinbych yn agored i wrthwynebiad(au) a phwysau cyfyngedig oedd iddynt. Cynghorodd yr Aelodau er bod cynllun gwell yn bosibl, y prawf oedd a fyddai'r cynnig yn achosi niwed sy'n ddigonol i gyfiawnhau gwrthod ac a allai gael ei amddiffyn yn llwyddiannus mewn apêl. Awgrymodd fod tri opsiwn ar gael - RHOI neu WRTHOD caniatâd neu OHIRIO'R cais.
O'i roi i bleidlais, trechwyd cais i ohirio'r cais i geisio maint mwy derbyniol i'r annedd ar bleidlais fwrw'r Cadeirydd.
Penderfynwyd : bod caniatâd i'w ROI
YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 8 ac amod newydd rhif 9 a 10:-
8. Ni chaniateir i unrhyw ddatblygu gychwyn ar waliau neu do'r annedd hyd nes y byddir wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'r union ddefnyddiau sydd i'w defnyddio ar wynebau allanol y rheini.
9. Ni chaniateir i unrhyw ddatblygu gychwyn hyd nes y byddir wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i gynllun tirlunio/plannu ar gyfer y safle, ac mae'r cynllun a gymeradwywyd i'w weithredu yn ei gyfanrwydd dim hwyrach na'r tymor plannu cyntaf wedi i rywun fyw yn yr annedd gyntaf.
10. Mae unrhyw goed neu lwyni a blannwyd yn unol â'r cynllun tirlunio a gymeradwywyd fel rhan o Amod 9, sy'n marw, yn mynd yn heintiedig, neu'n cael eu difrodi o fewn cyfnod o 5 mlynedd i'w plannu, i'w cyfnewid yn y tymor plannu nesaf am goed neu lwyni o'r un maint a rhywogaeth.
RHESWM dros 8, 9 a 10 - er mwyn amwynder gweledol.
(Dymunai'r Cynghorydd N Hughes iddo gael ei nodi ei fod wedi atal ei bleidlais ar y cais hwn).

03/2001/0206/PF

Addasu ac adfer ty allan i ffurfio un uned breswyl, yn cynnwys gosod tanc carthion newydd a newidiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau a cherddwyr yn Bache Ganol, Fron Bache, Llangollen.
YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 3, 5 a 7 ac amod newydd rhif 13 ac 14:-
3. Mae pob rhan o rannau'r waliau allanol a ailadeiladir neu a atgyweirir i'w hadeiladu gan ddefnyddio'r un defnyddiau wal allanol ag sydd ar y rhan honno o'r adeilad presennol ac mae'r to i'w orchuddio â llechen naturiol o liw a gwead unffurf.
5. Nid oes dim datblygu i ddigwydd hyd nes y bydd cynllun manwl o dirlunio caled a meddal ar gyfer y safle wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo, ac mae cynllun o'r fath i gynnwys manylion:-

(a) yr holl goed, gwrychoedd a llystyfiant arall sydd mewn bod ar y tir, manylion unrhyw rai sydd i'w cadw, a mesurau i'w diogelu yn ystod y datblygu;
(b) coed, gwrychoedd, llwyni neu lystyfiant newydd arfaethedig, yn cynnwys cadarnhad ynghylch rhywogaethau, niferoedd a lleoliad ac amseriad arfaethedig y plannu;
(c) defnyddiau arfaethedig sydd i'w defnyddio ar y dreif(s), llwybrau a mannau eraill sydd â wyneb caled, a
(d) cloddio arfaethedig, newidiadau yn y lefelau a'r cyfuchliniau terfynol.

7. Mae mân nodweddion y fynedfa i fod yn unol â'r manylion sy'n berthynol i fynedfa unigol (preswyl) fel y nodir ar y manylion safonol gogyfer â mynedfa gerbydau (copi ynghlwm wrth y dystysgrif hon).

13. Nid oes yr un o'r coed o fewn safle'r cais neu o fewn y tir sydd dan reolaeth yr ymgeisydd, i'w tocio, eu blaendorri neu eu torri heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw.
RHESWM - er mwyn amwynder gweledol.

14. Er gwaethaf darpariaethau Rhan 2, Dosbarthiadau A, B, C, D, E ac F Atodlen 2 y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (neu unrhyw orchymyn sy'n diddymu ac yn ailddeddfu'r gorchymyn hwnnw wedi neu heb ei addasu) nid oes dim datblygu a ganiateir gan y dywededig Ddosbarthiadau i'w gyflawni heb gymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
RHESWM - Sicrhau bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cadw rheolaeth ar effaith datblygu atodol i ddiogelu cymeriad a golwg yr eiddo.

03/2001/0622/PF

(Ar ôl ystyried adroddiad atodol a llythyrau ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Llangollen, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cymdeithas Ddinesig Llangollen, Cyngor er Diogelu Cymru Wledig ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd Powys).
Datblygu tir drwy adeiladu angorfeydd dros nos i hyd at 32 o gychod camlas a ffurfio mynedfa newydd i gerddwyr/yr anabl ym Masn Mwrio Llangollen, Ffordd Dinbren, Llangollen.
YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 6, amod newydd rhif 9, 10 ac 11 a nodyn newydd i'r ymgeisydd rhif 1:-

6. Nid oes dim datblygu i ddigwydd hyd nes y bydd cynllun manwl o dirlunio caled a meddal ar gyfer y safle wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo, ac mae cynllun o'r fath i gynnwys manylion:-
(a) yr holl goed, gwrychoedd a llystyfiant arall sydd mewn bod ar y safle, manylion unrhyw rai sydd i'w cadw, a mesurau i'w diogelu yn ystod y datblygu;
(b) coed, gwrychoedd, llwyni neu lystyfiant newydd arfaethedig, yn cynnwys cadarnhad ynghylch rhywogaethau, niferoedd a lleoliad ac amseriad arfaethedig y plannu; a'r dull o waredu defnydd a gloddiwyd o'r basn newydd arfaethedig;
(c) defnyddiau arfaethedig sydd i'w defnyddio ar y dreif(s), llwybr halio a mannau eraill sydd â wyneb caled;
(d) cloddio arfaethedig, graddio a phentyrru tir a newidiadau yn y lefelau, cyfuchliniau terfynol a pherthynas y twmpath arfaethedig â'r llystyfiant sydd mewn bod a ffurf y tir o gwmpas, a
(e) lleoliadau arfaethedig, dyluniad, defnyddiau a math o driniaeth terfyn.

9. Mae'r holl waith cloddio ar y basn mwrio, ac eithrio mynediad at y gamlas bresennol, i ddigwydd cyn llenwi'r basn â dwr.
RHESWM - atal gwaddodion rhag mynd i mewn i'r gamlas, er mwyn diogelu planhigion ac anifeiliaid.

10. Ni chaniateir i unrhyw ddatblygu gychwyn hyd nes y bydd arolwg wedi'i wneud o ystlumod, dyfrgwn, llygod y dwr a llyriad nofiadwy o fewn safle'r cais a hyd nes bydd casgliadau'r arolwg, ynghyd â'r mesurau i ddiogelu a chael lle arall i'r rhywogaethau a glustnodwyd fyw, wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol ac wedi'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, yn cynnwys amseriad eu gweithredu.

RHESWM - sicrhau bod cofnodi addas ar fflora a ffawna a bod mesurau'n cael eu cymryd i liniaru effaith y datblygiad.

11. Nid yw datblygu i gychwyn hyd nes y bydd arolwg ffotograffig priodol o nodweddion yr hen angorfa cychod camlas wedi'i wneud yn unol â manylion sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Mae'r ffotograffau sy'n dilyn i'w gadael gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol o fewn mis i'w gwblhau.

RHESWM - er mwyn ymchwilio i a chofnodi nodweddion diwydiannol archeolegol a hanesyddol.

Nodyn i'r Ymgeisydd - mewn perthynas ag Amod 10, fe'ch cynghorir i gysylltu ag Ecolegydd y Cyngor Sir a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Petai rhywogaethau o ystlumod, dyfrgwn a llygod y dwr yn cael eu darganfod, efallai y bydd angen trwyddedu ar wahân gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Saif y safle o fewn Parth Amddiffyn dynodedig Dwr y Ddyfrdwy, o fewn ba un efallai y mynna Asiantaeth yr Amgylchedd bod rhaid cael caniatâd ffurfiol dan Ddeddf Adnoddau Dwr 1991 i storio neu ddefnyddio sylweddau rheoledig. Fe ddylech gysylltu â'r Asiantaeth mewn perthynas â'r gweithdrefnau caniatâd hyn, ynghyd â chamau sydd eu hangen i gydymffurfio ag Adran 34 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 mewn perthynas â gwaredu defnydd cloddio gwastraff.

07/2001/0565/PF

Newidiadau ac estyniadau i'r ganolfan gymunedol bresennol yn y Ganolfan Gymunedol, Llandrillo, Corwen.

YN AMODOL ar amod newydd rhif 2:-

2. Mae ffenestri'r estyniad i fod wedi'u gwydro â gwydr aneglur bob amser.

RHESWM - osgoi edrych drosodd ac ymyrraeth bosibl â phreifatrwydd ac amwynder preswylwyr tai cyfagos.

09/2001/0345/PF

Codi byngalo ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau ar dir y tu ôl i Waen Stores, Waen, Bodfari, Dinbych.

YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 5:-

5. Nid oes dim datblygu i ddigwydd hyd nes y byddir wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i lefelau llawr terfynol yr annedd, ac i'r defnyddiau arfaethedig sydd i'w defnyddio ar wynebau allanol waliau a tho'r annedd a ganiateir drwy hyn, ac mae'r datblygiad ond i fynd yn ei flaen yn hollol unol â'r manylion a gymeradwywyd.

15/2001/0230/PF

(Ar ôl ystyried adroddiad atodol a gylchredwyd a llythyrau ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gymdeithas Gadwraeth Llanarmon a'r Cylch a Chyngor Cymuned Llanarmon).

Lleoli carafan i'r rheolwr safle/warden fyw ynddi (yn rhannol ôl-weithredol) ym Mharc Carafanau Eryrys, Bryn Awelon, Eryrys, Yr Wyddgrug.

YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 2 a 3 a nodyn newydd i'r ymgeisydd:-

2. Mae'r caniatâd hwn yn ymwneud â lleoli un garafan ar y safle yn unig, gan gwrdd â'r diffiniad o garafan yn Adran 13 Deddf Safleoedd Carafanau 1968.

RHESWM - sicrhau bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cadw rheolaeth ar y math o ddatblygiad i atal creu uned breswyl.

3. Ni chaniateir yr un garafan ar safle'r cais hyd nes y byddir wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ynghylch maint a mân nodweddion allanol y garafan, yn cynnwys y defnyddiau a lliwiau wynebau allanol y waliau a'r to, ac mae'r garafan i'w chadw bob amser yn unol â'r manylion a gymeradwywyd.
RHESWM - sicrhau bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cadw rheolaeth ar y math o ddatblygiad i atal creu uned breswyl.
Nodyn i'r ymgeisydd - Tynnir eich sylw ar y darn sydd ynghlwm o Ddeddf Safleoedd Carafanau 1968 sy'n cynnwys diffiniad safonol carafan.
(Ataliodd y Cynghorydd R.W. Hughes ei phleidlais ar y cais hwn).

15/2001/0231/PS

(Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Cymuned Llanarmon-yn-Iâl).
Amrywio amod 3 a osodwyd ar benderfyniad apêl gorfodi P.429/8910, a gyhoeddwyd ar 15fed Ionawr 1970 yn cyfyngu preswyliad 10 carafan rhwng 1af Mawrth a 31ain Hydref i ganiatáu cyfnod preswyliad o 10.5 mis rhwng 1af Mawrth mewn unrhyw un flwyddyn tan 15fed Ionawr yn y flwyddyn ganlynol ym Mharc Carafanau Eryrys, Bryn Awelon, Eryrys, Yr Wyddgrug.

22/2001/0450/PO

Datblygu tir drwy godi annedd ac adeiladu mynedfa newydd (cais amlinellol) yn Plas Coch Bach, Gellifor, Rhuthun.
YN AMODOL ar amod newydd rhif 7 ac 8 a nodyn newydd i'r ymgeisydd rhif 1:-
7. Ni chaniateir i unrhyw ddatblygu gychwyn hyd nes y byddir wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i lefelau llawr gorffenedig yr annedd.
RHESWM - er mwyn amwynderau preswylwyr tai cyfagos.
8. mae'r cynllun braslun sy'n dangos syniadau ar gyfer datblygu'r safle wedi'i dderbyn at ddibenion enghreifftiol yn unig, ac nid yw'n ffurfio rhan o'r caniatâd hwn.
RHESWM - i osgoi amheuaeth.
Nodyn i'r Ymgeisydd - Fe'ch cynghorir i gysylltu â'r swyddog achos yn yr Adain Gwasanaethau Cynllunio i drafod bras syniadau ar gyfer datblygu'r safle cyn cyflwyno cynlluniau manwl.

28/2001/0390/PF

(Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Swyddog Cyswllt Pensaernïol Heddlu Gogledd Cymru).
Codi 16 o anheddau ac adeiladu mynedfeydd newydd i gerbydau a cherddwyr ar dir yn gyfagos i Ganolfan Henllan yn agos i'r B5428 ffordd Henllan - Dinbych.
(Ataliodd y Cynghorwyr PO Williams ac N.J. Hughes eu pleidlais).

31/2001/0600/PF

(Ar ôl ystyried 3 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Asiantaeth yr Amgylchedd, Priffyrdd a Chyngor Gweithredol Iechyd a Diogelwch.
Codi gwaith cotio opteg newydd (Dosbarth B1), adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a dreif mynediad a chreu lleoedd parcio a gwasanaethu ar Dir yn gyfagos i Thales Optics Limited, Ffordd Glascoed, Llanelwy.

YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 4, amod newydd rhif 9, 10, 11, 12 a 13 a nodyn newydd i'r ymgeisydd:-
4. (d) "perthynas".
Yn dilyn (e) ychwanegu:-
"Mae'r cynllun tirlunio i gynnwys plannu coed a gwrychoedd newydd ar ffryntiad Ffordd Glascoed y tu ôl i hyd cyfan y llain weledig."
8. nid yw defnydd yr adeiladau a ganiateir drwy hyn i gychwyn hyd nes y bydd y 74 o leoedd parcio staff a'r man gwasanaeth a

ddangosir ar y cynllun a gymeradwywyd wedi'u harwynebu, eu marcio a'u bod ar gael i'w defnyddio.

9. Mae'r llecyn a nodwyd ar gyfer parcio ychwanegol gogyfer â 26 o leoedd staff i'w neilltuo ar gyfer parcio yn y dyfodol ac mae i'w ddarparu o fewn 6 mis i gais ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

RHESWM - sicrhau bod parcio'n cael ei ddarparu i adlewyrchu defnydd neilltuol yr adeilad.

10. Cyn cael ei ollwng i unrhyw gwrs dwr, carthffos dwr wyneb neu system ffos gerrig, mae'r holl ddraeniad dwr wyneb o'r lleoedd parcio a'r lloriau caled i'w roi drwy seiffon olew, wedi'i gynllunio a'i adeiladu yn unol â manylion sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.

RHESWM - atal llygru'r amgylchedd dwr.

11. Cyn cychwyn y datblygiad mae dyluniad manwl ar gyfer y mynedfeydd i gerbydau a cherddwyr at y datblygiad, cyffordd y ffordd fynediad gyda Ffordd Glascoed, a'r llwybr troed arfaethedig a'r cwndidau goleuadau stryd i ochr ddeheuol Ffordd Glascoed i'w gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Mae'r gwaith mynedfeydd a phriffordd a gymeradwywyd i'w wneud ac i fod ar gael i'w ddefnyddio cyn cychwyn defnyddio'r adeilad a ganiateir drwy hyn.

RHESWM - er mwyn diogelwch y briffordd.

12. Mae'r lleiniau gweledеdd a ddangosir ar y cynllun a gymeradwywyd Lluniad Rhif W4972/05/A i'w darparu cyn cychwyn adeiladu'r adeilad ar y safle ac mae bob amser wedi hynny i'w gadw'n glir o unrhyw blannu, tyfiant coed neu lwyni neu unrhyw rwystr arall sy'n fwy na 1.05m yn uwch na lefel y ffordd gerbydau gyfagos.

RHESWM - er mwyn diogelwch y briffordd.

13. Mae parcio i feiciau i'w ddarparu ar gyfer yr adeilad a ganiateir drwy hyn cyn i neb symud iddo yn unol â manylion sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.

RHESWM - sicrhau argaeledd cyfleusterau ar gyfer beicwyr.

Nodiadau i'r ymgeisydd:-

Tynnir eich sylw at y Nodiadau Atodol Priffyrdd amgaeëdig Rhif 1, 2, 4, 5 a 10.

Mae'r Awdurdod Priffyrdd yn cynghori y bydd angen llunio Cytundeb Adran 278 dan y Ddeddf Priffyrdd cyn cychwyn y datblygiad.

Tynnir eich sylw at y ffurflen Rhan N amgaeëdig (Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Strydoedd 1991).

Rhaid cael gwared ag unrhyw ddefnydd cloddio gwastraff neu wastraff adeiladu sy'n cael ei greu yn ystod y datblygiad yn foddhaol ac yn unol ag Adran 34 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

Rhaid i'r gweithgaredd o gludo gwastraff i mewn i'r safle i'w ddefnyddio fel, er enghraifft, seiliau caled, gael ei gofrestru gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru fel gweithgaredd eithriedig dan y Rheoliadau Trwyddedu Rheolaeth Gwastraff 1994.

Fe all unrhyw waith (yn cynnwys gwaith dros dro) yn, dan, dros neu'n gyfagos i unrhyw gwrs dwr fod ag angen caniatâd ffurfiol Asiantaeth yr Amgylchedd cyn i'r gwaith gychwyn. Yn unol â pholisi "dim sianelu" yr Asiantaeth, bydd caniatâd ar gyfer sianelu ond yn cael ei roi fel rheol at ddibenion mynediad at y safle.

41/2001/0466/PF

(Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Cymuned Bodfari a Phwyllgor AHNE).

Codi 2 annedd ar wahân ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau/cerddwyr yn Ystafelloedd Cenhadol Eglwys Sant Steffan, Bodfari, Dinbych.

YN AMODOL ar amod newydd rhif 13 a nodiadau newydd i'r ymgeisydd:-

13. Er gwaethaf y nodyn ar gynllun safle Lluniad Rhif MO158801/E nid oes dim llwybr troed i'w ddarparu ar draws tu blaen y safle.
RHESWM - er mwyn cymeriad golygfa'r stryd a'r Ardal Gadwraeth gyfagos.
Nodiadau Newydd i'r Ymgeisydd:-
Tynnir eich sylw at y Nodiadau Atodol Priffyrdd amgaeëdig Rhif 1, 2, 4, 5 a 10.
Tynnir eich sylw at y ffurflen Rhan N amgaeëdig (Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Strydoedd 1991).

42/2001/0223/PF

(Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Cymuned Dyserth a'r Pen Swyddog Cefn Gwlad (Coed)).
Creu meysydd parcio (1 ar gyfer Rhodfa ac 1 ar gyfer Depo Contractwyr) newidiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau/cerddwyr a chodi giatiau a ffensys (yn rhannol ôl-weithredol) ar dir yn gyfagos i Anglia House, Newmarket Road, Dyserth, Y Rhyl.
YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 2 a 5:-
2. O fewn 3 mis i ddyddiad y penderfyniad hwn mae manylion tirlunio pellach i'w cyflwyno i gynnwys plannu o amgylch y maes parcio de-gorllewinol a'r cylch troi bysus a chadarnhau'r holl rywogaethau, niferoedd a lleoliad ac amseriad arfaethedig y plannu. Yr holl blannu...."
5. Ychwanegu "Mae'r cynllun ar gyfer arafu traffig i'w weithredu'n llawn o fewn 12 mis i ddyddiad y penderfyniad newydd."

42/2001/0601/PF

(Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Cymuned Dyserth a Phennaeth Gwarchod y Cyhoedd).
Codi uned unllawr i'r gwaith trin dwr presennol yng Ngwaith Trin Dwr Trecastell, Newmarket Road, Dyserth, Y Rhyl.
YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 3:-
3. Er gwaethaf y manylion a gyflwynwyd mae'r dalennau metel/gorchudd i'w gorffen mewn lliw gwyrdd tywyll (BS12B27).

43/2001/0492/PR

Manylion dyluniad a golwg allanol annedd a gyflwynwyd yn unol ag Amod Rhif 1 caniatâd cynllunio amlinellol Cyfeirnod 43/2001/0072/PO) (Materion a Gadwyd yn Ôl) ar dir yn yr hen Mountain View, Ffordd Penrhwylfa, Galltmelyd.

44/2001/0555/PF

Codi dormer to gwastad y tu ôl i'r ty annedd yn 3 Fairlands Crescent, Rhuddlan, Y Rhyl.

44/2001/0553/PF

Newid defnydd o Ddosbarth A1 i Ddosbarth A3 lle prydau parod poeth yn 38 Water Street, Y Rhyl.
YN AMODOL ar amod newydd rhif 4 a nodyn i'r ymgeisydd:-
4. Nid yw'r defnydd a ganiateir drwy hyn i'w gychwyn hyd nes y bydd darpariaeth wedi'i gwneud o fewn y safle ar gyfer storfa finiau gaeëdig yn unol â manylion sydd wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.
RHESWM - er mwyn amwynder preswyl a gweledol.

Nodyn i'r ymgeisydd - Sicrhewch os gwelwch yn dda nad yw unrhyw waith a wnewch mewn cysylltiad â'r newid defnydd yn peryglu'r ddihangfa os digwydd tân o'r fflatiau ar loriau uchaf yr adeiladau.

45/2001/0562/PF

(Ar ôl ystyried 6 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Fforwm Busnes Y Rhyl, Yr Ymgeisydd, Cymdeithas Fusnes Prestatyn a'r Cylch, A1 Fashions, Y Rhyl, Grwp Mynediad Sir Ddinbych a Rockbottom, Y Rhyl).
Codi 2 o unedau manwerthu Dosbarth A1 heb fod yn fwyd (3591 metr sgwâr & 761 metr sgwâr) ynghyd â lle parcio ceir cysylltiedig,

gwasanaethu, tirlunio a newidiadau i’r fynedfa bresennol i gerbydau/cerddwyr ar dir yn Greenfield Place, Y Rhyl.
YN AMODOL ar amod diwygiedig rhif 3, 4, 5, dileu 6, 7, amod newydd rhif 8 a nodiadau i’r ymgeisydd:-
3. Nid oes unrhyw ddatblygu i ddigwydd hyd nes y byddir wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i’r defnyddiau arfaethedig sydd i’w defnyddio ar gyfer arwynebau allanol waliau a thoeau’r datblygiad a ganiateir drwy hyn ac nid oes dim defnyddiau heblaw’r rheini a gymeradwywyd i’w defnyddio oni bai y cytunir fel arall yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae’r manylion a gyflwynir i gynnwys lliw a phroffil y paneli allanol a’r gorchudd.
RHESWM - er mwyn amwynder gweledol.
4. Cyn i’r naill siop neu’r llall ddechrau masnachu, mae gwaith gwella’r briffordd ar gyffordd Vale Road/Greenfield Place ac o’r gyffordd i mewn i’r safle ar hyd Greenfield Place fel y dangosir ar Luniad rhif 3860/D/09C i’w wneud ac i fod ar gael i’w ddefnyddio yn unol â dyluniad manwl sydd i’w gyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’i gymeradwyo’n ysgrifenedig ganddo cyn cychwyn y datblygiad. Mae’r dyluniad manwl i gynnwys gweddlun, signalau traffig, croesfan(nau) cerddwyr, rheiliau, goleuadau, arwyddion a marciau ffordd i’r briffordd.
RHESWM - er mwyn diogelwch y briffordd.
5. Mae’r iard gwasanaethau, lleoedd parcio, lle parcio beiciau a rhodfeydd cerddwyr a ddangosir ar Luniad rhif 3860/D/09C i’w gosod allan ac i fod ar gael i’w defnyddio cyn dechrau masnachu gan y naill siop neu’r llall.
RHESWM - er mwyn diogelwch y briffordd a mynediad addas.
7. Mae cynllun goleuadau a Theledu Cylch Cyfyng ar gyfer y safle i’w gyflwyno i’r Awdurdod Cynllunio Lleol a’i gymeradwyo’n ysgrifenedig ganddo cyn cychwyn y datblygiad ac mae i’w gyflawni’n unol â’r cynllun a gymeradwywyd cyn dechrau masnachu gan y naill siop neu’r llall.
RHESWM - er mwyn amwynder gweledol a phreswyl ac atal troseddu.
8. Nid yw’r unedau a ganiateir drwy hyn i’w defnyddio at ddibenion gwerthu bwyd neu nwyddau cyfleus heblaw pan fydd yn atodol i’r defnydd manwerthu heb fod yn fwyd.
RHESWM - cymryd materion angen manwerthu ac effaith i ystyriaeth.
Nodiadau i’r Ymgeisydd:-
Mae Railtrack yn tynnu eich sylw at eu rhestr safonol o argymhellion a hefyd at y ffaith bod rhaid cydymffurfio â chyfamodau/cymalau cadw a dderbyniwyd yn nhrawsgludiad gwerthiant gwreiddiol y tir.
Tynnir sylw’r ymgeisydd at y nodiadau priffyrdd canlynol ac at yr angen i lunio cytundeb dan Adran 278 y Ddeddf Priffyrdd cyn cychwyn y datblygiad.
Tynnir eich sylw at y Nodiadau Atodol Priffyrdd amgaeëdig Rhif 1, 2, 4, 5 a 10.
Tynnir eich sylw at y ffurflen Rhan N amgaeëdig (Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Strydoedd 1991).

Manyleb Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Adeiladu Ffyrdd.
Nodiadau Cyffredinol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Gosodiadau Goleuadau Priffyrdd.
Gofynion Cyffredinol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer Arwyddion Traffig a Marciau Ffordd.
Mae’r holl arwyddion dros dro neu barhaol, marciau ffyrdd neu orchmynion traffig i fod ar draul yr ymgeisydd ac wedi’u cytuno â’r Awdurdod Priffyrdd cyn i’r gwaith gychwyn.
Yn benodol mewn perthynas â’r cais sy’n destun y cais hwn, fe’ch cynghorir bod Grwp Mynediad Sir Ddinbych wedi tynnu sylw at:-

Sicrhau defnydd cywir o balmentydd cyffyrddol ar bob croesfan a dynesfa.
Fe all staff a gyflogir fod ag anableddau ac felly mae angen i bob man fod yn gyfan gwbl hygyrch a dylai toiledau cwbl hygyrch fod ar gael yn y bloc amwynderau staff.
Mae angen i bob drws allanol fod yn 800mm o leiaf gyda mynedfa â ramp.
Mae'n rhaid gallu mynd at unrhyw wasanaethau a ddarperir ar y llawr cyntaf drwy gyfrwng lifft teithwyr.
Wrth ystyried y cais cynllunio, roedd Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn ystyried y byddai'n ddymunol i doiledau cwsmeriaid gael eu cynnwys o fewn y datblygiad ar sail y diffyg toiledau cyhoeddus ar y safle ac yn y cyffiniau cyfagos.
Cysylltwch â Mark Dakeyne, Pen Swyddog Cynllunio (Ffôn: 01824 706586, e-bost: mark.dakeyne@denbighshire.gov.uk) os gwelwch yn dda i drafod gwelliannau i'r grisiau cerddwyr, y plannu ar yr arglawdd ac amgylchedd y bont reilffordd. Bydd angen trafod gwelliannau gyda'r tri phrif gyfranogwr - Matalan, Cyngor Sir Ddinbych a Railtrack.

| | |
|---|---|
| 45/2001/0632/PF | Newid defnydd siop cigydd llawr isaf (Dosbarth A1) yn lle prydau parod poeth (Dosbarth A3) yn 36-38 Vale Road, Y Rhyl. |

(ii) Gwrthod

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 01/2001/0024/PC | Parhau i ddefnyddio hen garej a chwrt blaen at ddefnydd cymysg (suis generis) caffi a golchfa/glanhau ceir (cais ôl-weithredol) yn Uned 1 Hen Garej, Pwll y Grawys, Dinbych.<br>RHESWM DIWYGIEDIG - Ystyrir bod gweithredu'r caffi a'r olchfa geir yn debygol o achosi lefelau annerbyniol o swn, aflonyddu, ac ogleuon, sy'n niweidiol i amwynderau preswylwyr tai preswyl cyfagos, yn groes i Bolisi A1 (III) Cynllun Lleol Dosbarth Glyndwr. |
| 17/2001/0129/PF | (Ar ôl ystyried llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Cymuned Llanarmon-yn-Iâl).<br>Codi storfa peiriannau amaethyddol yn yr Adeilad Amaethyddol ar dir yn gyfagos i Bryn Celyn, Llandegla, Wrecsam. |

*(b)* *Er gwaethaf argymhelliad y Swyddogion, bod y cais canlynol i'w wrthod am y rhesymau a nodir:-*

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 28/2001/0427/PF | Codi ystafell wydr yn 9 Bryntirion, Henllan, Dinbych.<br>Gwnaed y penderfyniad, a oedd yn GROES i Argymhelliad y Swyddogion, am y rheswm canlynol:-<br>Ym marn yr Awdurdod Cynllunio Lleol, byddai'r ystafell wydr arfaethedig, yn rhinwedd ei safle a'i mân nodweddion, yn annerbyniol o ran ei heffaith ar breifatrwydd ac amwynder preswylwyr yr eiddo cyfagos, Rhif 8 Bryntirion a byddai'n cael effaith annerbyniol ar gymeriad y stad, gan osod cynsail annymunol ar gyfer estyniadau tebyg yn y dyfodol ar du blaen tai. |

*(c)* *Gohiriwyd y ceisiadau canlynol er mwyn gallu ymweld â'r safleoedd:-*

| <u>Rhif y Cais</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 30/2001/0038/PF | (Ar ôl ystyried tri llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Mrs J. Ryding, Ty Nant, 6 Parc Bach, Babtie a Chylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dderbyniwyd ar 18fed Gorffennaf 2001 |

ynghylch newidiadau i'r ddeddfwriaeth ar y trefniadau trwyddedu a diogelu Madfallod Dwr Cribog.
Codi 1 annedd ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau ar dir yn Trefnant Isa yn wynebu Ffordd Pen y Maes, Parc Grosvenor, Trefnant, Dinbych.
RHESWM - i weld y safle a'r angen i ystyried Cylchlythyr newydd y Cynulliad Cymreig yn ymwneud â'r trefniadau trwyddedu mewn perthynas â madfallod dwr cribog.

| | |
|---|---|
| 30/2001/0304/PO | (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Mrs J. Ryding, Ty Nant, 6 Parc Bach, Trefnant).<br>Datblygu 0.037 hectar o dir drwy godi annedd deulawr ar wahân ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau (Cais amlinellol) ar dir yn 1 Ffordd Pen y Maes, Parc Grosvenor, Trefnant, Dinbych.<br>RHESWM - i weld y safle a'r angen i ystyried Cylchlythyr newydd y Cynulliad Cymreig yn ymwneud â threfniadau trwyddedu mewn perthynas â madfallod dwr cribog. |

*(ch)* *gohiriwyd y cais canlynol ar gais y Swyddogion am y rhesymau a nodir:-*

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 14/2001/0354/PO | Datblygu tir drwy godi pum annedd ar wahân (cais amlinellol) ar dir i'r Gogledd o Westy'r Bont, Bontuchel, Rhuthun.<br>RHESWM - ystyried materion yn ymwneud â'r ffin ddatblygu a'r effaith ar barcio i'r gwesty. |

*(d)* *tynnwyd y cais canlynol yn ei ôl:-*

| Rhif y Cais | Disgrifiad a lleoliad |
|---|---|
| 03/2001/0131/PO | Datblygu 0.1 hectar o dir drwy godi annedd a garej yn llety i reolwr/staff mewn cysylltiad â'r cartref preswyl presennol (cais amlinellol) ar dir yn gyfagos i Gartref Llangollen Fechan, Ffordd Caergybi, Llangollen. |

**393.** **DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn gofyn am gymeradwyaeth i ymweliadau safle sy'n codi o Eitem Rhif 2 ar yr Agenda gael eu cynnal ar ddydd Mercher, 1af Awst, 2001 ac yn rhoi gwybod am aelodaeth bresennol y Panel Ymweld â Safleoedd.

***PENDERFYNWYD*** *cynnal yr ymweliad safle a gymeradwywyd ar ddydd Mercher, 1af Awst, 2001.*

**394.** **MATERION GORFODI**

(i) ENF/133/00/S

Lleoli carafan dwy uned a'i defnyddio fel trigfan deuluol barhaol yn Llyn Cyfynwy, Bodidris Water Game Fishery, Llandegla.

***PENDERFYNWYD*** *rhoi awdurdodiad ar gyfer y canlynol:-*

*(a)* *cyflwyno Rhybudd Gorfodi i beri rhoi terfyn ar y defnydd preswyl diawdurdod ac i gael gwared â'r garafan ddwy uned a'r holl amrywiol adeiladweithiau ac eitemau eraill a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r defnydd preswyl oddi ar y tir;*

(b) *o ystyried sensitifrwydd y mater yma, cyfarwyddo Swyddogion i osod 12 mis o amser ar gyfer cydymffurfio â'r Rhybudd Gorfodi, gan felly roi i'r perchennog ddigonedd o gyfle i gydymffurfio'n rhesymol â'r Rhybudd, a*

(c) *cychwyn achos erlyn neu gamau priodol eraill dan y deddfau cynllunio os yw'r sawl neu'r rhai y cyflwynir unrhyw Rybuddion iddo/iddynt neu y cymerir camau cyfreithiol yn ei erbyn/eu herbyn yn peidio â chydymffurfio â'u gofynion.*

(ii) ENF/236/00/S

Bryn Egwallt Bach, Llandyrnog
Gweithredu Busnes o Gartref

***PENDERFYNWYD** fel a ganlyn:-*

(a) *o ystyried yr holl ffactorau perthnasol nid oes dim tystiolaeth fod newid defnydd o bwys ar yr eiddo wedi digwydd ac fel y cyfryw nad oes dim camau pellach i'w cymryd gyda'r mater hwn ar hyn o bryd; a*

(b) *petai tystiolaeth yn cael ei chasglu i ddangos bod defnydd busnes yr adeiladau wedi dwysáu, yna bydd y mater yn cael ei ailymchwilio gan Swyddogion bryd hynny, a bod adroddiad ar eu canfyddiadau i'w gyflwyno i'r Aelodau mewn cyfarfod yn y dyfodol.*

(iii) ENF/2001/0005

"Patina", 204 Stryd Fawr, Prestatyn
Gosod caeadau rholer ar flaen siop

***PENDERFYNWYD** rhoi awdurdodiad ar gyfer y canlynol:-*

(a) *cyflwyno rhybudd gorfodi i sicrhau y ceir gwared â'r caead rholer diawdurdod, a*

(b) *cychwyn achos erlyn, neu gamau priodol eraill dan y Ddeddf Cynllunio, yn erbyn y sawl neu'r rhai y cyflwynir unrhyw Rybudd Gorfodi iddo/iddynt, neu y cymerir camau cyfreithiol yn ei erbyn/eu herbyn, petaent yn peidio â chydymffurfio â'i ofynion.*

(iv) ENF/2001/0004

"Home Proud Cash and Carry", 208 Stryd Fawr, Prestatyn
Gosod caeadau rholer ar flaen siop

***PENDERFYNWYD** rhoi awdurdodiad ar gyfer y canlynol:-*

(a) *cyflwyno rhybudd gorfodi i sicrhau y ceir gwared â'r caead rholer diawdurdod, a*

(b) *cychwyn achos erlyn, neu gamau priodol eraill dan y Ddeddf Cynllunio, yn erbyn y sawl neu'r rhai y cyflwynir unrhyw Rybudd Gorfodi iddo/iddynt, neu y cymerir camau cyfreithiol yn ei erbyn/eu herbyn, petaent yn peidio â chydymffurfio â'i ofynion.*

**395. YMWELIAD SAFLE Â CHWAREL BURLEY HILL, MAESHAFN, GER YR WYDDGRUG**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn crynhoi cefndir y cais i estyn y Chwarel. Roedd yr adroddiad yn hysbysu'r Aelodau bod cais diwygiedig wedi'i dderbyn ac y byddai ymweliad â'r safle yn fuddiol cyn penderfynu'r cais.

***PENDERFYNWYD** gwahodd holl Aelodau'r Pwyllgor i fynychu ymweliad safle yn Chwarel Burley Hill sydd i'w gynnal ar 21ain Awst 2001 am 10.00a.m.*

**396. CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn hysbysu’r Aelodau bod Panel y CDU wedi trafod ac wedyn wedi cymeradwyo pump o Destunau Canllawiau Cynllunio Atodol diweddaredig, sef:-

Estyniadau i Anheddau
Blaenau Siopau
Gofal Dydd Plant
Ciosgau Manwerthu
Cerbydau Hurio Preifat (Tacsis)

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor:-*

*(a) yn cymeradwyo cynnwys y Canllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig;*

*(b) yn cymeradwyo fformat A4 ar gyfer y Canllawiau Cynllunio Atodol a*

*(c) yn mabwysiadu’r Canllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig fel ystyriaeth gynllunio berthnasol at ddibenion rheoli datblygu.*

**397. CANLLAWIAU CYNLLUNIO RHANBARTHOL AR GYFER GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn hysbysu’r Aelodau bod Grwp Swyddogion Cynllunio Gogledd Cymru wedi cynhyrchu canllawiau Cynllunio Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru (RPGNW) ar y cyd ac yn gofyn i’r ddogfen gael ei chymeradwyo fel Canllawiau Cynllunio Atodol.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo’r Canllawiau Cynllunio Rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru (Gorffennaf 2001) fel Canllawiau Cynllunio Atodol.*

**398. FFRAMWAITH CYNLLUNIO GOFODOL CENEDLAETHOL AR GYFER CYMRU**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn hysbysu’r Aelodau o Fenter Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**399. PAPUR YMGYNGHORI CYNULLIAD CYMRU - AROLWG O WEITHDREFNAU GALW I MEWN**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn amlinellu’r newidiadau arfaethedig yn y drefn.

***PENDERFYNWYD****:-*

*(a) y dylid gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyfrannu at gost Ymchwiliadau Galw i Mewn, a*

*(b) bod y sylwadau a amlinellir yn Atodiad 2, a pharagraff 4:2 adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio i ffurfio sail ymateb Sir Ddinbych i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

**400. ENWI A RHIFO DATBLYGIADAU NEWYDD**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn manylu ar enwau pum datblygiad newydd yn Sir Ddinbych, sef:-

Yn gyfagos i Dafarn y Llindir, Henllan - “Lon Las, Henllan”
Safle yr hen Bod Glanmor a Bod Cledwyn, Dinbych - “Maes Mathonwy, Dinbych”
Safle 10 Parc Alafowlia, Dinbych - “Lon Ceiriog, Dinbych”
Rhan 2 Bryn Glas, Rhuthun - “Cae Castan, Rhuthun”
Yn gyfagos i Glanrafon, Llandyrnog, Dinbych - “Maes Tyrnog, Llandyrnog”

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**401. <u>AROLWG O ARFER GORAU</u>**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio adroddiad llafar yn hysbysu'r Aelodau ei fod yn bwriadu cyflwyno arolwg o arfer gorau i Bwyllgor Cynllunio mis Medi. Byddai hwn yn cynnwys taliadau diweddaredig, cynllun dirprwyo a chynigion i adael i'r Aelodau wybod beth sy'n digwydd.

Gofynnwyd i'r Cynghorwyr ddweud wrth Mark Dakeyne am unrhyw faterion y byddent yn hoffi eu gweld yn ffurfio rhan o'r arolwg hwn.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion am y gweithdy a gynhaliwyd yn Llangollen yn ddiweddar a fu o ddiddordeb mawr ond gofynnwyd ganddynt fod y man cyfarfod ar gyfer gweithdai yn y dyfodol i'w aryneilio rhwng Gogledd a De'r Sir.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**402. <u>RHESTR Y CEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG</u>**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad diwygiedig (a gylchredwyd yn y cyfarfod) ynghylch y ceisiadau am ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan awdurdod dirprwyedig rhwng 9fed Mehefin 2001 a 1af Gorffennaf 2001.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**403. <u>CAIS GALW I MEWN - FFERM WYNT ARFAETHEDIG YN NHIR MOSTYN/FOEL GOCH, NANTGLYN, DINBYCH</u>**

(Ystyriwyd yr eitem hon fel mater o frys, y rhoed rhybudd ohoni gan y Cadeirydd).

Cylchredwyd adroddiad Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio yn hysbysu'r Aelodau fod y Cynulliad Cenedlaethol wedi dweud - (a) eu bod yn bwriadu cynnal cyfarfod Cyn yr Ymchwiliad ar 2il Awst, 2001; (b) y camau y bydd yr Ymchwiliad ei hun yn eu cymryd; ac (c) yn gofyn am benderfyniad ynghylch y man cyfarfod, costau a chynrychiolaeth yn yr Ymchwiliad.

***PENDERFYNWYD:-***

*(a) y byddai'r man cyfarfod ar gyfer yr Ymchwiliad naill ai'n Neuadd y Dref Dinbych neu'n Neuadd Bentref Nantglyn a bod swyddogion yn cael cyfle i ymweld â'r mannau cyfarfod arfaethedig i weld a ydynt yn addas mewn perthynas â chyfleusterau, acwsteg a mynediad corfforol, a*

*(b) gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol dalu am, neu gynorthwyo gyda thalu am gost yr Ymchwiliad hwn. Os oes raid i Gyngor Sir Ddinbych gyfrannu, yna dylid gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet.*

Hysbysodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio y byddai'n anodd i swyddogion gynrychioli'r Cyngor gan fod y Pwyllgor Cynllunio wedi penderfynu rhoi caniatâd cynllunio yn erbyn argymhelliad swyddogion.

***PENDERFYNWYD*** *bod Cadeirydd Cynllunio (Cynghorydd F.D. Jones) a'r Aelod Lleol (Cynghorydd P.O. Williams) yn cynrychioli'r Pwyllgor ac y gall Aelodau unigol gynrychioli eu barn eu hunain yn yr Ymchwiliad, yn amodol ar egluro hyn yn y cyfarfod Cyn yr Ymchwiliad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.10p.m.

**************